



Llwybrau Chwedleua Gwrth-hiliaeth

Aelodau Panel Cynghori/Cynghorwyr/Mentoriaid

Yn chwilio am dri o bobl i gefnogi recriwtio, a chronfa o arbenigwyr am oes y prosiect

Briff: Mae Beyond the Border - Gŵyl Chwedleua Ryngwladol Cymru a People Speak Up yn chwilio am fynegiant o ddiddordeb gan gynghorwyr Du, Asiaidd a lleiafrif ethnig yng Nghymru, i gymryd rhan yn y prosiect dwy flynedd hwn fel aelodau o'r panel a mentoriaid. Bydd y rolau yn cael eu talu ar gyfradd o £250 y dydd (ar sail dyddiau 7.5 awr) am hyd at bum diwrnod ar gyfer y cyfnod recriwtio a chynghori hyd at ddiwedd Mawrth 2023 (tri ymarferwr) gyda ffioedd ychwanegol ar gael ar gyfer 2023-24.

Bydd y gefnogaeth ofynnol yn cynnwys:

- Rhoi cyngor ac arweiniad i sefydliadau am ymgynghorwyr, eiriolwyr cymunedol ac ymarferwyr ffurfiau celf addas i'w cynnwys yn hyn a rhaglenni sefydliadol ehangach
- Cefnogi recriwtio a gwneud penderfyniadau ar gyfer y rolau canlynol, gan gyfrannu at lunio rhestr fer a phaneli cyfweld ar gyfer:
 - 2 x Gyfarwydd Cyfoes (ymarferwr Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig), chwedleuwyr/artistiaid gair ar lafar. Bydd yr artistiaid yn datblygu rhaglen o weithgareddau chwedleua, gan gynnwys perfformiadau chwedleua ac ymgysylltu, sy'n cyrraedd yn fwy eang ac yn ddyfnach i gymunedau y maent yn dewis lleoli eu preswylid 18 mis ynddynt. Gall y cymunedau y maent yn dewis sefydlu eu gwaith ynddynt fod yn ddaearyddol, ond gallant hefyd fod yn gymunedau sy'n rhannu profiad, hunaniaeth, neu amgylchiadau.
 - 1 x Cynhyrchydd - (ymarferwr Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig) a fydd yn cefnogi'r ddwy swydd uchod a Chyfarwyddion Cysylltiedig yn PSU, gan weithio i lunio partneriaethau cymunedol a chyd-gynhyrchu prosiectau creadigol yn ystod y swyddi hyn.
 - Rheolwr Prosiect – (ymarferwr Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig) i ddarparu rheolaeth gyffredinol ar y prosiect ar gyfer y cynllun 2 flynedd, gan gynnwys rheoli

preswylfeydd creadigol, cynllunio gweithredu gwrth-hiliaeth, cyllidebu, gwerthuso, casglu data a rhoi adroddiadau am dargedau fel aelod o dîm Beyond the Border (yn gweithio o gartref). Yn cynnwys y potensial i godi arian i ymestyn y prosiect.

- Gan weithredu fel cynghorwyr, mentoriaid a thrafodwyr syniadau trwy gydol oes y prosiect

Er mwyn mynegi diddordeb: anfonwch fideo/clip sain byr (3 munud) neu 1 amlinelliad A4 pam y byddech yn hoffi cymryd rhan a beth allwch chi ei ddwyn i'r swydd erbyn 31 Ionawr 2023.

Byddwn hefyd yn cynnal sgwrs agored ar-lein am y prosiect a'r swyddi ar ddydd Mawrth 27 Ionawr rhwng 11 a 12 y prynhawn. Er mwyn archebu eich lle anfonwch e-bost at recruitment@beyondtheborder.com

E-bostiwch eich mynegiant o ddiddordeb at recruitment@beyondtheborder.com

Ymrwymadau Amser:

Wythnos 6 Chwef: Sesiwn rannu gwybodaeth ar-lein ar gyfer swyddi creadigol a rheolwr prosiect (sesiwn fin nos am 2 awr ar y mwyaf)

Wythnos 13 Chwef: Gosod y ceisiadau am swydd Rheolwr Prosiect ar restr fer (0.5 diwrnod)

Wythnos 20 Chwef: Rhan o'r panel cyfweld ar gyfer swydd Rheolwr Prosiect (0.5 diwrnod)

Wythnos 6 Mawrth: Rhestr fer ar gyfer swyddi Cyfarwyddion a Chynhyrchydd (1 diwrnod)

Wythnos 13 Mawrth: Cyfweiliad ar gyfer swyddi Cyfarwyddion a Chynhyrchydd (1 diwrnod)

Wrth Gefn: Cyngor Cyffredinol 1.5 diwrnod

Mae'r Llwybrau Chwedleua Gwrth-hiliaeth yn bosibl gyda chyllid o Gronfa Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon Cymru Gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government